Gwneud ffrindiau newydd

Beth am ymuno â chlwb wrth eich ymyl chi!

kidz unlimited

Dysgu sgiliau newydd

Cychwyn ymgyrch

Beth am gofrestru ac ymuno â'r rhwydwaith mwyaf cyffrous a hwyliog i bobl ifanc anabl yn y DU!

Whizz-kidz

move a life forward

Ymunwch â'r clwb – dowch yn un o Genhadon Kidz Unlimited

Am wneud rhywbeth i wella bywydau pobl ifanc anabl tra'n cael hwyl a gwneud ffrindiau newydd ar yr un pryd? Os ydw yw'r ateb, gallech fod yn un o Genhadon Kidz Unlimited. O sgiliau arwain a byw'n iach, i fod yn greadigol a gwaith tîm, bydd pob clwb yn gyfle ichi roi cynnig ar weithgareddau newydd y dywedodd bobl ifanc wrthym eu bod am eu gwneud. Bydd gennych hefyd lais cryf mewn sut y mae'r prosiect Kidz Unlimited yn cael ei redeg.

Felly sut fath o bethau allwch chi ei wneud? Wel, dyma ragflas:

- Gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl yn eich Clwb Cenhadon lleol
- Dysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i fod yn fwy hyderus ac annibynnol
- Cynrychioli eich clwb mewn digwyddiadau cŵl drwy gymryd rhan mewn pethau fel cyfweliadau ar y teledu a'r radio
- Cychwyn eich ymgyrch eich hun
- Ymuno â Bwrdd Kidz (mae'r aelodau yn helpu Whizz-Kidz i wneud penderfyniadau pwysig ac yn helpu i benderfynu sut y mae'r prosiect Kidz Unlimited yn cael ei redeg).

"Rwyf wedi bod yn Gennad i Kidz Unlimited ers dros 3 blynedd. Fi yw Is-gadeirydd ein Bwrdd Kidz a rwyf hefyd yn cynrychioli'r Gogledd Ddwyrain. Rwyf wrth fy modd yn bod yn Gennad oherwydd mae wedi rhoi gymaint o gyfleoedd gwych imi, fel gallu gwneud ffrindiau newydd ac ymgyrchu dros y pethau sy'n bwysig imi, fel mynediad gwell i gadeiriau olwyn yn fy ardal i."

Lleoliad gwaith – rhoi cynnig ar waith

Os ydych yn barod i ennill llwyth o sgiliau newydd, i gyfarfod â phobl newydd ac i fod yn fwy hyderus, dowch ar ein Rhaglen Lleoliad Gwaith – efallai y cynigir gwaith ichi ar ddiwedd y lleoliad hyd yn oed!

Bydd ein tîm lleoliad gwaith yn eich helpu o'r dechrau. Gallwn helpu gyda phopeth o lenwi'r ffurflen gais i roi hyfforddiant sgiliau gwaith ichi. Bydd aelod o'r tîm hefyd yn dod draw i'ch cyfarfod cyntaf. Byddwch yn cael cyfaill i'ch cefnogi yn ystod y lleoliad a gallwn hefyd ddarparu cymhorthydd personol a thalu eich costau teithio.

Byddwch hefyd yn derbyn tystysgrif ar ddiwedd eich lleoliad – a bydd gwneud Lleoliad Gwaith Kidz Unlimited yn edrych yn wych ar eich CV!

"Ni allaf ddiolch digon i'r tîm Kidz Unlimited; ni fu gennyf erioed leoliad gwaith yn yr ysgol a rwyf hefyd wedi cael trafferth dod o hyd i waith rhan amser tra wyf yn y Brifysgol. Rwyf yn teimlo y bydd y sgiliau a enillais ar y lleoliad yn help mawr imi pan fyddaf yn cychwyn dod o hyd i waith ar ôl gorffen fy ngradd."

Felly os ydych yn 15+ oed, cysylltwch â ni i weld a fyddai un o'r cannoedd o leoliadau neu interniaethau hirach yn addas ichi.

Dowch i hyfforddi – i ddysgu sgiliau newydd

Mae ein Hyfforddiant Sgiliau Cadair Olwyn yn ffordd wych o gael mwy o reolaeth dros eich cadair olwyn a bod yn fwy annibynnol.

"Oherwydd fy Hyfforddiant Sgiliau Cadair Olwyn rwyf wedi dod yn llawer mwy hyderus; rwyf hyd yn oed wedi gallu bacio drwy ddrws ffrynt y tŷ am y tro cyntaf erioed!"

Mae'r cyrsiau Hyfforddiant Sgiliau Cadair Olwyn yn para tua 12½ awr, wedi ei rannu'n 3-6 sesiwn. Byddwch yn dysgu popeth o sut i deithio mewn gwahanol gyfeiriadau ac osgoi pethau ar eich llwybr, i ofalu am eich cadair olwyn, diogelwch ar y ffordd a threfnu siwrne.

Gyda'r Hyfforddiant Sgiliau am Oes rhyngweithiol a llawn hwyl, byddwch yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar berson ifanc anabl wrth dyfu'n oedolyn. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn ein Clybiau Cenhadon ar draws y wlad ac yn delio gyda phopeth o sgiliau cyfathrebu, ysgrifennu CV i siarad yn gyhoeddus a hyfforddiant cyfryngau. Mae'r wefan e-ddysgu yn offeryn rhyngweithiol llawn hwyl sydd hefyd yn ffordd ichi gadw mewn cysylltiad â'r hyfforddwyr ac aelodau eraill rhwng y sesiynau. Gallwch hyd yn oed ennill cymhwyster achrededig mewn Datblygiad Personol gan y Rhwydwaith Coleg Agored ar ddiwedd yr hyfforddiant.

"Roedd y sesiynau'n berthnasol iawn a chefais hwyl gyda'r gweithgareddau. Byddaf yn defnyddio'r hyn a ddysgais gymaint â phosibl yn fy mywyd pob dydd."

Mae'r posibiliadau yn ddibendraw

Am ddysgu sgiliau a fydd yn aros gyda chi am byth? Chwilio am brofiad gwaith? Diddordeb mewn gwella ymwybyddiaeth pobl o anabledd yn y DU? Os gwnaethoch ateb ydw neu oes i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, yna gallai Kidz Unlimited fod jest y peth ichi.

Mae'r prosiect hwn gan Whizz-Kidz wedi'i sefydlu gan bobl ifanc fel chi sydd am fynd allan i ganol pethau, am wneud y mwyaf o fywyd a gwneud mwy dros eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu llwyth o Glybiau Cenhadon ar draws y DU, felly dowch i gymryd rhan – bydd un wrth eich ymyl chi cyn bo hir.

Pwy yw Whizz-Kidz?

Mae Kidz Unlimited yn cael ei redeg gan Whizz-Kidz, yr elusen sy'n gweithio i roi'r annibyniaeth i blant a phobl ifanc anabl i fwynhau plentyndod llawn – adref, yn yr ysgol ac wrth chwarae. Yn ogystal â darparu cyfarpar symudedd, cyngor a chymorth, rydym yn rhoi rhywbeth llawer pwysicach, sef y cyfle i bobl ifanc gydag anableddau fod yn nhw eu hunain ac i gael mwy allan o fywyd.

Cymrwch ran – ffoniwch ni heddiw!

Os ydych yn meddwl bod y syniad o gymryd rhan yn Kidz Unlimited yn swnio'n hwyl neu jest am wybod mwy, ffoniwch ein tîm ar 0800 151 3350 neu ewch i'r wefan yn www.kidz-unlimited.org.uk.

LOTTERY FUNDED

Supported by BBC Children in Need

© BBC 2007 Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557

Whizz-Kidz, 4th Floor, Portland House, Bressenden Place, London SW1E 5BH
Whizz-Kidz yw enw gwaith y Mudiad dros Blant Ansymudol.
Elusen gofrestredig rhif 802872

Beth am ymuno â chlwb wrth eich ymyl chi!

Gwneud ffrindiau newydd

Cychwyn ymgyrch

kidz unlimited

Ymunwch â'r rhwydwaith mwyaf cyffrous a hwyliog i bobl ifanc a phlant anabl yn y Deyrnas Unedig!

Ffoniwch ein tîm ar 0800 151 3350
www.kidz-unlimited.org.uk

Whizz-kidz
move a life forward